

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174(4) a (5)(t) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2022 Rhif (Cy.)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Deddf Llywodraeth
Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
(Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu
Swydd a Chynorthwywyr
Gweithrediaeth) 2022**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i adrannau 57 a 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"), ac Atodlen 7 iddi, sy'n diwygio darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000"), ac Atodlen 1 iddi. Mae adran 57 o Ddeddf 2021 yn ymwneud â phenodi cynorthwywyr gweithrediaeth awdurdod lleol ac mae adran 58 ac Atodlen 7 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â rhannu swydd ar weithrediaeth awdurdod lleol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i ddarparu y caniateir i ddau neu ragor o aelodau awdurdod lleol sy'n rhannu swydd ar y weithrediaeth gael eu penodi i bwyllgor gwasanaethau democrataidd awdurdod lleol, neu bwyllgor llywodraethu ac archwilio awdurdod lleol, ond nad yw'r aelodau hynny gyda'i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod at y dibenion a bennir mewn cysylltiad â phob pwyllgor (aelodaeth, pleidleisio a hawlio cyfarfod).

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001") i ddarparu na chaiff pwyllgor safonau awdurdod lleol ond cynnwys naill ai un aelod gweithrediaeth neu un cynorthwydd gweithrediaeth, o'r awdurdod lleol

hwnnw. At hynny, pan fo dau neu ragor o awdurdodau lleol yn sefydlu cyd-bwyllgor safonau, ni chaiff y pwyllgor hwnnw ond cynnwys naill ai un aelod gweithrediaeth neu un cynorthwydd gweithrediaeth, o bob awdurdod lleol cyfansoddol.

Mae rheoliad 3 hefyd yn diwygio Rheoliadau 2001 i ddarparu y caniateir i ddau neu ragor o aelodau gweithrediaeth awdurdod lleol sy'n rhannu swydd gael eu penodi i bwyllgor safonau awdurdod lleol, ond nad yw'r aelodau hynny gyda'i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod at y dibenion a bennir (maint a chyfansoddiad y pwyllgor, pleidleisio a chworwm).

Mae rheoliad 4 yn diwygio Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) (Cymru) 2002 i ddarparu nad yw maer dros dro nac aelodau gweithrediaeth dros dro i'w trin fel aelodau o weithrediaeth awdurdod lleol at ddiben y terfyn statudol a osodwyd ar nifer aelodau'r weithrediaeth a nodir yn adran 11 o Ddeddf 2000.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174(4) a (5)(t) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2022 Rhif (Cy.)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Deddf Llywodraeth
Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
(Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu
Swydd a Chynorthwywyr
Gweithrediaeth) 2022**

Gwnaed

Yn dod i rym

13 Mai 2022

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 173 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(1).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 174(4) a (5)(t) o'r Ddeddf honno.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022.

(1) 2021 dsc 1.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 13 Mai 2022.

RHAN 2

Diwygio deddfwriaeth sylfaenol

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

2.—(1) Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011⁽¹⁾ wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 12 (aelodaeth pwyllgor gwasanaethau democrataidd)—

- (a) yn is-adran (2)(b), ar ôl “weithrediaeth yr awdurdod” mewnosoder “(ond gweler is-adran (6))”;
- (b) ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

“(6) Os penodir dau neu ragor o aelodau awdurdod lleol i'r weithrediaeth i rannu swydd, caniateir penodi mwy nag un o'r aelodau hynny i bwyllgor gwasanaethau democrataidd yr awdurdod (ac os y'u penodir hwy felly, gyda'i gilydd maent yn cyfrif fel un aelod gweithrediaeth at ddibenion is-adran (2)(b)).”

(3) Yn adran 14 (trafodion pwyllgor gwasanaethau democrataidd), ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

“(4A) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor gwasanaethau democrataidd yn aelodau o'r weithrediaeth sy'n rhannu swydd, mae gan yr aelodau hynny un bleidlais rhyngddynt at ddibenion is-adran (4).”

(4) Yn adran 15 (pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd pwyllgor gwasanaethau democrataidd), ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(2A) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor gwasanaethau democrataidd yn aelodau o'r weithrediaeth sy'n rhannu swydd, nid yw'r aelodau hynny gyda'i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod o'r pwyllgor at ddibenion is-adran (2)(b).”

(5) Yn adran 82 (aelodaeth pwyllgor llywodraethu ac archwilio)—

- (a) yn is-adran (2)(c), ar ôl “weithrediaeth yr awdurdod” mewnosoder “(ond gweler is-adran (8))”;
- (b) ar ôl is-adran (7) mewnosoder—

“(8) Os yw dau neu ragor o aelodau awdurdod lleol wedi eu penodi i'r weithrediaeth i rannu swydd, caniateir penodi mwy nag un o'r

(1) 2011 mecc 4; diwygiwyd adrannau 12 a 82 gan baragraff 6 o Atodlen 6 a pharagraff 4 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

aelodau hynny i bwyllgor llywodraethu ac archwilio yr awdurdod (ac os y’u penodir hwy felly, gyda’i gilydd maent yn cyfrif fel un aelod gweithrediaeth at ddibenion is-adran (2)(c)).”

(6) Yn adran 83 (trafodion pwyllgor llywodraethu ac archwilio), ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

“(3A) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor llywodraethu ac archwilio yn aelodau o’r weithrediaeth sy’n rhannu swydd, mae gan yr aelodau hynny un bleidlais rhyngddynt at ddibenion is-adran (3).”

(7) Yn adran 84 (pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd pwyllgor llywodraethu ac archwilio), ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(2A) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor llywodraethu ac archwilio yn aelodau o’r weithrediaeth sy’n rhannu swydd, nid yw’r aelodau hynny gyda’i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod o’r pwyllgor at ddibenion is-adran (2)(b).”

RHAN 3

Diwygio is-ddeddfwriaeth

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001

3.—(1) Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

“mae i “cynorthwydd gweithrediaeth” yr un ystyr ag a roddir i “assistant to the executive” ym mharagraff 3A o Atodlen 1 i Ddeddf 2000;”.

(3) Yn rheoliad 3, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor safonau yn aelodau o’r weithrediaeth sy’n rhannu swydd, nid yw’r aelodau hynny gyda’i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod o’r pwyllgor at ddibenion paragraffau (1) a (2).”

(4) Yn rheoliad 5, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor safonau yn aelodau o’r weithrediaeth sy’n rhannu swydd, nid yw’r aelodau hynny gyda’i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod o’r pwyllgor at ddibenion paragraffau (1) a (2).”

(5) Yn rheoliad 9—

(1) O.S. 2001/2283 (Cy. 172); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2006/1849 (Cy. 192), 2016/85 (Cy. 39).

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “gynnwys mwy nag un aelod gweithredol o’r awdurdod hwnnw.” rhodder—

“gynnwys mwy nag un o’r rhai a ganlyn—

- (a) aelod gweithrediaeth o’r awdurdod hwnnw (ond gweler paragraff (3)), neu
(b) cynorthwydd i’w weithrediaeth.”;

- (b) ym mharagraff (2), yn lle “gynnwys mwy nag un aelod gweithredol o bob un awdurdod lleol cyfansoddol.” rhodder—

“gynnwys mwy nag un o’r rhai a ganlyn o bob un awdurdod lleol cyfansoddol—

- (a) aelod gweithrediaeth (ond gweler paragraff (3)), neu
(b) cynorthwydd gweithrediaeth.”;

- (c) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Os yw dau neu ragor o aelodau awdurdod lleol yn cael eu penodi i’r weithrediaeth i rannu swydd—

- (a) caiff pwyllgor safonau gynnwys mwy nag un o’r aelodau hynny, ac os yw’n gwneud hynny, gyda’i gilydd maent yn cyfrif fel un aelod gweithrediaeth at ddibenion paragraff (1)(a);
(b) caiff cyd-bwyllgor gynnwys mwy nag un o’r aelodau hynny o awdurdod lleol cyfansoddol, ac os yw’n gwneud hynny, gyda’i gilydd mae’r aelodau hynny’n cyfrif fel un aelod gweithrediaeth at ddibenion paragraff (2)(a).”

- (6) Yn rheoliad 23, ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(4) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor safonau yn aelodau o’r weithrediaeth sy’n rhannu swydd, mae gan yr aelodau hynny un bleidlais rhyngddynt at ddibenion paragraff (2).”

- (7) Yn rheoliad 24, ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(4) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor safonau yn aelodau o’r weithrediaeth sy’n rhannu swydd, nid yw’r aelodau hynny gyda’i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod o’r pwyllgor at ddibenion paragraffau (1) a (2).”

Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) (Cymru) 2002

4. Yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen) (Addasu

Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) (Cymru) 2002⁽¹⁾, yn erthygl 41(6), ar ôl “adran 11(8)” mewnosoder “neu 11(8ZA)”.

Enw

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
Dyddiad

(1) O.S. 2002/808 (Cy. 89).